



CODI'R  
BAR

Oriel Mission | Gloucester Place, Abertawe SA1 1TY, Cymru | +44 (0)1792 652016

## Datblygu gwaith creadigol ar draws y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol 2022

Mae *Codi'r Bar* yn cynnig y cyfle i fyfyrwyr sydd mewn addysg bellach i gael profiad ehangach o'r celfyddydau gweledol a chymhwysol. Wrth ochr eu hastudiaethau presennol, byddant yn profi sawl dosbarth meistr a gynhelir yn Oriel Mission, Coleg Gwyr a Choleg Celf Abertawe, PCDDS. Bydd y myfyrwyr yn ehangu eu gwaith creadigol drwy gael mynediad i gyfleusterau, prosesau a gweithdai technegol.

Mae *Codi'r Bar* ar gael i ddisgyblion yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot sy'n astudio ar lefel addysg bellach (BTEC, Safon Uwch ac U/A).

### Gwybodaeth i Athrawon

Mae'r rhaglen yn cynnwys:

*Gweithdai dosbarth meistr mewn amrywiaeth o feysydd Celf a Dylunio, sy'n cymryd lle dros penwythnosau yn yr Haf*

*Y cyfle i brofi gweithio ochr yn ochr ag artistiaid a dylunwyr proffesiynol*

*Arddangosfa broffesiynol ar y cyd i ddangos y gwaith sydd wedi'i greu yn ystod dosbarthiadau meistr Codi'r Bar.*

*Cit Deunyddiau Celf a thystysgrif i nodi cyflawniad y cyfranogwyr ar gwblhau'r rhaglen.*

**Gall pob ysgol enwebu myfyrwyr sy'n dangos gallu eithriadol ym maes celf, crefft neu ddylunio. Caiff athrawon anfon yr enwebiadau fel un cais.**

Hysbysir ymgeiswyr ynglŷn â'u llwyddiant erbyn diwedd mis **Mehefin**.

**Sut i ymgeisio:**

Dylech gyflwyno o leiaf 3 delwedd o'ch gwaith sydd yn eich tyb chi yn dangos eich gallu artistig.

Dylech gynnwys manylion cyswllt pob ymgeisydd; enw, oedran, cyfeiriad, e bost a rhif ffôn. Hefyd yr ysgol y mae'n ei mynychu a'i athro/athrawes gelf.

Gallwn hefyd drefnu diwrnod ystyried portffolios gyda'ch ysgol fel dewis arall.

**Rhaid anfon y rhain drwy'r post neu e-bost i Oriol Mission erbyn  
Dydd Gwener 10 Mehefin 2022**

[apply@missiongallery.co.uk](mailto:apply@missiongallery.co.uk)

Ffi'r rhaglen yw £20 y gofynnir i gyfranogwyr ei thalu wrth dderbyn eu lle. Mae bwrsari bach ar gael i'r rheini na allant dalu'r ffi - rhowch wybod i ni os yw hyn yn berthnasol.

Os oes gynnwch chi unrhyw gwestiynau, e-bostiwch neu ffonio Oriol Mission: [megan@missiongallery.co.uk](mailto:megan@missiongallery.co.uk)

**Nodyn pwysig, efallai fydd ceisiadau yn cau'n gynnar, yn dibynnu  
ar lefel yr ymgeisiadau**

Mission Gallery

*Cwmni Cyfyngedig drwy Warant Rhif: 06467843*

**Oriol Mission | Gloucester Place | Yr Ardal Forol | Abertawe | Cymru | SA1 1TY  
ff +44 (0)1792 652016 | e [info@missiongallery.co.uk](mailto:info@missiongallery.co.uk) | y we [missiongallery.co.uk](http://missiongallery.co.uk)**

